# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2024 - 2025

## Cyflwyniad y Cadeirydd

Rwyf yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol 2024/25 Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint.

Mae Fforymau Mynediad Lleol yn gyrff statudol cyfansoddiadol dan ddarpariaeth Adra 94(1) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Er ei fod yn annibynnol ar yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol (sef Cynghorau Sir), cynhelir busnes y Fforwm Mynediad Lleol drwy gyswllt agos â nhw. Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cefnogaeth weinyddol i'r Fforwm. Er bod aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn annibynnol, yn unol â deddfwriaeth, mae'n rhaid cael cydbwysedd cynrychiolaeth rhwng defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy, a pherchnogion a deiliaid tir mynediad a thir y mae hawliau tramwy'n mynd drosto.

Mae'r aelodau wedi ystyried amrywiaeth o adroddiadau a phapurau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi rhoi sylwadau ar y pynciau hyn i'r Awdurdod Priffyrdd a chyrff eraill. Ym mhob cyfarfod, rydym hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar statws y rhwydwaith hawliau tramwy, y gwaith a wnaed a'r tasgau sydd angen eu gwneud.

O ystyried y gyllideb sydd ar gael gan y Cyngor Sir ar gyfer y swyddogaeth statudol hon, rhaid canmol swyddogion yr adran Mynediad ac Amgylchedd Naturiol am eu hymdrechion i symud ymlaen â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, er bod yr ôl groniad yn parhau'n her. Hoffwn ddiolch i Aelodau am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau gwerthfawr i waith pwysig y Fforwm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Julian Pellatt**

## Beth yw’r Fforwm Mynediad Lleol?

Mae Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint yn gorff statudol a sefydlwyd fel Fforwm Mynediad Lleol y Sir dan adran 94 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, i roi cyngor ar fynediad i gefn gwlad. Prif bwrpas y Fforwm yw rhoi cyngor i Gyngor Sir y Fflint a chyrff eraill megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cynghorau Cymuned ac adrannau eraill y Llywodraeth fel bo’n briodol, ar sut i wneud cefn gwlad yn fwy hygyrch a phleserus ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored mewn ffyrdd sy’n ymdrin â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae’r Fforwm yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i gael cyflwyniadau ac adroddiadau gan aelodau’r Fforwm a siaradwyr allanol ac i’w hystyried. Darperir ymatebion a sylwadau ar ymgynghoriadau a materion sy’n codi er mwyn helpu Cyngor Sir y Fflint a chyrff eraill wella mynediad at gefn gwlad er bydd cymunedau lleol.

## Aelodaeth y Fforwm

Mae aelodaeth y Fforwm am gyfnod o dair blynedd ac mae’n rhaid i’r Cyngor (fel awdurdod penodi) benodi aelodau i fod yn rhan o’r Fforwm. Ar y Fforwm mae rhwng 10 a 22 o aelodau gan gynnwys y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd (sy’n cael eu dewis o aelodau’r Fforwm Mynediad Lleol gan y fforwm ei hun). Wrth benodi aelodau’r Fforwm mae’n rhaid i’r awdurdod sicrhau bod yna gydbwysedd rhesymol rhwng diddordeb defnyddwyr hawliau tramwy a thir mynediad, a pherchnogion a deiliaid tir mynediad neu dir sydd â hawliau tramwy’n bodoli arnynt.

Hefyd, dylai’r awdurdod geisio sicrhau bod cydbwysedd teg rhwng unigolion o wahanol ryw, hil, oed, anabledd a nodweddion eraill.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn rhoi’r cyfle i arsylwyr o Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru fynychu cyfarfodydd y Fforwm. Hefyd, gall y Cadeirydd wahodd arsylwyr eraill i gyfarfodydd y Fforwm i roi gwybodaeth ar bynciau arbenigol neu i gynrychioli diddordebau.

## Cyflwyniad i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol a'u diddordebau.

**Julian Pellatt – Cadeirydd.** Arferai Julian weithio yn y sector awdurdod lleol ar lefel cyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb am Hawliau Tramwy. Un o'i ddiddordebau pennaf yw cerdded.

**Huw Morgan - Is-Gadeirydd.** Yn dir feddiannwr a Chadeirydd Cyngor Cymuned Nannerch, mae hefyd yn gweithio i Dirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

**Jeff Shone.** Mae'n mwynhau cerdded yn ei amser hamdden ac mae ganddo ddiddordeb mewn hyrwyddo mwy o lwybrau mynediad i waith. Mae ganddo ddiddordeb mewn llwybrau hanesyddol / cynnal hawliau tramwy presennol neu ail-agor hen hawliau tramwy.

**Shirley Fermor.** Cerddwr Clwyd.

**Y Cynghorydd Dave Evans.** Aelod enwebedig CSyFf a Chadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd.

**Marjorie Thomson.** Cerddwr gyda'r Rainbow Ramblers.Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned dros Wernymynydd.

**John Holiday.** Yn cynrychioli diddordebau beicio sy'n ymestyn yn fras o Abergele i'r ffin yng Nghaer ac yn fewndirol a gyda diddordeb mewn unrhyw ddatblygiadau sy'n berthnasol i feicio mewn cyd-destun ehangach.

**Alan Neale.** Gyda diddordeb yn ardal Treffynnon. Mae'n trefnu ac yn arwain teithiau cerdded.

**Ian Gibbons.** Cyn Raglen Troedio Sir y Fflint.

**Nia Thomas.** Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Johnny Hulson.** Diddordeb mewn bywyd gwyllt. Gweithio i'r North Wildlife Trust ledled Gogledd Cymru.

**Miranda Dechazal.** Mae ei diddordebau'n cynnwys perchnogaeth tir, Ffermio, Addysg a Cherdded.

Moel Arthur yn edrych tuag at Ddyffryn Clwyd

## Adolygu’r Flwyddyn

## Dyddiadau Cyfarfodydd

### Pumed Cyfarfod FfMLl - Ystafell Ardd Parc Wepre.

Mynychodd 13 o unigolion, gyda 7 yn ymddiheuro.

Adolygodd aelodau flwyddyn gyntaf y FfMLl. Trafodwyd eitemau ar gyfer y rhaglen fel cydweithio â’r adran gynllunio. Cafwyd cyflwyniad ar ddefnyddio’r System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (CAMS). Trafodwyd eitem ar wella ymddygiad yng nghefn gwlad a chlywyd safbwyntiau aelodau ar achosion o ymddygiad gwael ac opsiynau i fynd i’r afael â nhw.

### Chweched Cyfarfod FfMLl - Ystafell Ardd Parc Wepre.

16 o bobl wedi mynychu a 3 wedi ymddiheuro

Dangoswyd mapiau i’r aelodau o’r adolygiad cydgrynhoi mapiau a chafwyd cyfle i drafod y broses gyda’r swyddogion. Y pynciau trafod yn y cyfarfod hwn oedd aredig a thyfu cnydau a mynediad at Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cyflwynodd yr aelodau’r materion oedd ganddynt a chafwyd atebion.

### Seithfed Cyfarfod FfMLl - Ystafell Ardd Parc Wepre.

11 o bobl wedi mynychu a 3 wedi ymddiheuro.

Cafodd yr aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am Rwystrau Mynediad, ar ôl ei drafod yn 2023, gan edrych ar atebion ar gyfer gwella hygyrchedd ar Lwybr Arfordir Cymru. Y pwnc trafod oedd diweddariad ar y gyllideb ac effaith hyn ar y tîm. Daeth y cyfarfod i ben gydag adolygiad o’r cadeirydd a phenderfynwyd bod pawb yn hapus â’r trefniadau.

### Wythfed Cyfarfod FfMLl - Ystafell Ardd Parc Wepre.

15 o bobl wedi mynychu a 3 wedi ymddiheuro.

Rhoddwyd trosolwg o Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru i’r aelodau, oedd yn cynnwys trosolwg o’r gwaith oedd y tîm wedi’i gwblhau a’r meini prawf ar gyfer cyllid 2025/26. Cafwyd cyflwyniad ar brosiect Hynet. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses cydgrynhoi mapiau a gofynnwyd i’r aelodau am eu barn ar drefnu sesiynau agored i weld y mapiau. Daeth y cyfarfod i ben gyda syniadau ar gyfer eitemau ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol.

## Mae aelodau'r Fforwm wedi parhau i gael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y canlynol:

### Map Diffiniol a Datganiad Cyfreithiol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Mae ymarfer cydgrynhoi Map Diffiniol yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Tîm Mynediad. Bydd hynny'n golygu bod y Map Diffiniol yn cael ei ddiweddaru'n gyson er mwyn delio gyda cheisiadau gan breswylwyr, busnesau a thirfeddianwyr i ychwanegu llwybrau newydd neu newid eu haliniad ac i ddatrys unrhyw broblemau.**

### Piblinell Casglu Carbon $CO_2$ Hynet y Gogledd Orllewin

Bydd y piblinell 60km yn casglu $CO_2$ wedi'i gynhyrchu gan ffatrïoedd diwydiannol yn Ince and Stanlow yn Swydd Gaer ac yn cael ei gludo i derfynell yn Nhalacre a'i storio ar y môr mewn cronfeydd nwy sy'n eiddo i Eni.

### Cynllun Casglu Carbon Padeswood

**Nod y cynllun yw casglu a storio hyd at 800,000 tunnell fetrig o $CO_2$ y flwyddyn o'r gwaith sment presennol, fydd yn cael ei gludo drwy HyNet y Gogledd Orllewin.**

### Prosiect Carbon Isel Gorsaf Bŵer Cei Connah Uniper

**Byddai'r orsaf bŵer newydd yn cysylltu â'r isadeiledd cludo a storio $CO_2$ gerllaw fel rhan o glwstwr diwydiannol HyNet.**

**Mae'r Tîm Mynediad wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cynllunio Gwastraff a Mwynau i ddynodi'r holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd wedi'u heffeithio gan y cynigion ac i wneud darpariaethau ar gyfer gwyriadau dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.**





Doc y Fflint

## Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru

Darparu dros £75,000 o waith Grant Gwella Mynediad ar gynlluniau cyfalaf amrywiol. Yn ystod 2024 25, fe ddarparwyd cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Gwella Mynediad. Diben y grant oedd cefnogi'r gwaith o wella mynediad at ein rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a mannau gwyrdd. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi Tîm Mynediad Sir y Fflint i gynnal sawl gwelliant ar y rhwydwaith yn cynnwys gosod giatiau mochyn neu rai sy'n cau ar eu pen eu hunain yn lle camfeydd, adeiladu grisiau cerrig, llwybrau pren a gosod cerrig neu darmac ar lwybrau.

Mae'r Fforwm yn parhau i fonitro darpariaeth y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r Tîm Mynediad wedi gosod 43 o giatiau mochyn er mwyn gwella hygyrchedd i gefn gwlad yn ogystal â gwella safonau llwybrau ac arwyneb dros 3,000 metr sgwâr.

Mae'r llyfryn Teithiau Cerdded Gwledig wedi cael ei gynhyrchu gan y Gwasanaeth Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i ddangos ystod amrywiol rhai o deithiau cerdded harddaf Sir y Fflint. Mae'r teithiau cerdded wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i'r isadeiledd ar y rhwydwaith. Mae'r llyfryn yn cynnwys 19 o deithiau cerdded o bob cwr o gefn gwlad amrywiol Sir y Fflint.







**Cafodd aelodau'r Fforwm y wybodaeth ddiweddaraf am d**ynnu Rhwystrau Mynediad, ar ôl ei drafod yn 2023, gan edrych ar atebion ar gyfer gwella hygyrchedd ar Lwybr Arfordir Cymru.

Moel Arthur o Ben y Cloddiau

## Parc Cenedlaethol newydd



Trafododd aelodau'r Fforwm yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, ac ymateb iddo.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Gyfoeth Naturiol Cymru, fel yr Awdurdod Dynodi yng Nghymru, i werthuso achos ar gyfer creu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac roedd yr ardaloedd posibl yn cynnwys rhannau o Sir Ddinbych a Sir y Fflint.




## Ystyriodd aelodau'r Fforwm Gysylltu Cei Connah â Llwybr Arfordir Cymru – Arolwg Cerdded, Beicio a Mynd ar Olwynion

Ar hyn o bryd, nid yw cysylltiadau hygyrch o ran cerdded, beicio a mynd ar olwynion rhwng Cei Connah a Llwybr Arfordir Cymru wedi'u datblygu'n dda ac mae'r dref wedi'i gwahanu i raddau helaeth oddi wrth arfordir Glannau Dyfrdwy.

Gan weithio'n agos â Phrosiectau Cludiant Lleol, mae'r Cyngor yn gwahodd pobl leol i gyflwyno eu safbwyntiau ynghylch materion cerdded, beicio a mynd ar olwynion hygyrch yn yr ardal a syniadau ar gyfer gwneud gwelliannau.

## 'Prosiect Cysylltu'r Arfordir â Chefn Gwlad' Parc Arfordir Sir y Fflint

Mae Parc yr Arfordir yn ymestyn ar draws arfordir Sir y Fflint o Saltney i Dalacre, gan gynnwys Porth y Gogledd a Garden City, Cei Connah a Shotton, y Fflint, Bagillt, Maes Glas, Llannerch-y-môr a Mostyn, a Gronant. Mae prosiect Parc Arfordir Sir y Fflint wedi elwa o ddyraniad gwerth £396,580.37 Sir y Fflint o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, a sicrhaodd fwy o welliannau i Arfordir Sir y Fflint a chysylltiadau â chefn gwlad o amgylch. Bu i'r cyllid alluogi Cyngor Sir y Fflint i greu'r blociau adeiladu ar gyfer Parc yr Arfordir, gan gynnwys plannu dros 400 o goed, gwella a chreu llwybrau troed newydd, gwella cynefinoedd ar gyfer nythfa Llyffantod Cefnfelyn a warchodir a chreu cynllun ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.









Am ragor o wybodaeth ar y Fforwm Mynediad Lleol a sut y gallwch gymryd rhan, cysylltwch â Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint:

rightsofway@flintshire.gov.uk

Mae Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol yn gymdeithasol, dilynwch ni ar Countryside and Coast!

